# Cylch Gorchwyl:
# Y PWYLLGOR BUDDSODDIADAU

Yn adrodd i'r: Cyngor

Yn cwrdd: Ddwywaith y flwyddyn

*Adolygwyd y cylch gorchwyl ddiwethaf: Gorffennaf 2022; diwygiwyd ddiwethaf: Ebrill 2020; ac i'w adolygu nesaf: Gorffennaf 2024*

| Aelodau: | Yn gweinyddu: |
|---|---|
| • 1 Aelod Annibynnol (Cadeirydd), o blith aelodau'r Cyngor<br>• 3 Aelod Annibynnol, y gall hyd at ddau ohonynt fod wedi'u cyfethol neu beidio â bod yn aelodau o'r Cyngor<br>• Cadeirydd y Cyngor<br>• Yr Is-Ganghellor<br>• 1 Aelod o blith y Myfyrwyr<br><br>7 aelod.<br><br>Cworwm: 4 aelod, a'r mwyafrif yn Aelodau Annibynnol. | • Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, neu enwebai<br>• Ysgrifennydd y Brifysgol<br>• Cynghorwyr Buddsoddi'r Brifysgol<br><br>Fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gwahoddir swyddogion eraill y Brifysgol i gyfarfodydd, fel y bo'n briodol. |

Cylch gwaith:

Mae'r Pwyllgor Buddsoddiadau'n goruchwylio buddsoddi gwaddolion a chronfeydd y sefydliad ac yn cynghori'r Cyngor ynghylch hynny, gan gynnwys penodi cynghorwyr buddsoddi a'u perfformiad.

Cylch gorchwyl:

1. Ystyried ac argymell i'r Cyngor eu cymeradwyo:
    a. Polisi Buddsoddi'r Brifysgol, y gall y Cyngor roi adolygiad ohono ar waith ac a fydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch buddsoddiadau moesegol a chynaliadwy; a
    b. Penodi Cynghorwyr Buddsoddi'r Brifysgol, gan gynnwys unrhyw ffioedd sy'n daladwy a thelerau eraill y gwneir y penodiad(au) yn unol â hwy.
2. Ystyried a bod ag awdurdod i gymeradwyo ar ran y Cyngor:
    a. Meincnodau ar gyfer monitro perfformiad y buddsoddiadau gan y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Buddsoddi.
3. Derbyn adroddiadau a chynghori'r Cyngor a / neu'r Is-Ganghellor fel y bo'n briodol ynghylch:
    a. Buddsoddi gwaddolion a chronfeydd y sefydliad, yn unol â Pholisi Rheoli'r Trysorlys a'r Polisi Buddsoddi fel y cytunwyd arnynt gan y Cyngor; a
    b. Perfformiad penodi Cynghorwyr Buddsoddi'r Brifysgol, a chystadleurwydd parhaus unrhyw ffioedd sy'n daladwy.

Gweithredu:

Trefnir dau gyfarfod o'r Pwyllgor ym mhob blwyddyn academaidd. Er hynny, fel y gwêl y Cadeirydd yn dda, gall y Pwyllgor Buddsoddiadau gyflawni ei ddyletswyddau drwy gyfrwng cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor, neu drwy ohebiaeth electronig rhwng aelodau'r Pwyllgor. Bydd y cyfryw benderfyniadau a wneir y tu allan i gyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor yn cael eu dogfennu'n llawn, a chyflwynir adroddiad arnynt i gyfarfod llawn nesaf y Pwyllgor Buddsoddiadau.

Bydd y Pwyllgor yn cytuno ar adroddiad blynyddol ac yn ei gyflwyno i'r Cyngor ar berfformiad y buddsoddiadau, gan gynnwys eu perfformiad yn erbyn meincnodau y mae'r Pwyllgor wedi cytuno arnynt. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys asesiad o berfformiad y Cynghorwyr Buddsoddi.

Gall y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol wneud penderfyniadau buddsoddi o ddydd i ddydd drwy ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor, o fewn ffiniau Polisi Rheoli'r Trysorlys a'r Polisi Buddsoddi fel y cytunwyd arnynt gan y Cyngor. Cyflwynir adroddiad ar unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn hyn o beth i gyfarfod llawn nesaf y Pwyllgor.